❖ Y Doethion

Daethant dri brenin doethion – yn araf
o'r Dwyrain a'u rhoddion.
Rhoddwyd o'r Nef arwyddion
i'w bro hwy am Fab yr Iôn.

❖ Y Nadolig Heddiw

I fab Duw'r Nef y byd ry'n awr – eiliad
o sylw pur gostfawr.
Ond unwaith y daw Ionawr,
ei holl hwyl fydd pethau'r llawr.

Digonedd o deganau – llawenydd
mewn llawnion dafarnau.
Ond Tŷ'r Iôr a'i allorau
'n oer a gwag, a'i ddrws ar gau.

R. J. Jones